# CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL SYNIADAU

WWW.ABERSU.CO.UK

#NEWIDABER



03/05/2016

# IDEAS

Agweddau myfyrwyr tuag at bleidleisio 2

Cynrychiolwyr UCM yn cofnodi sut maent yn pleidleisio ar gynigion yn ystod y gynhadledd. 5

*Os oes angen hew mewn fformat arall, cysylltwch â Dan Meehan ar undeb.democratiaeth@aber.ac.uk*

# AGWEDDAU MYFYRWYR TUAG AT BLEIDLEISIO

## Y Sefyllfa:

1. Mae myfyrwyr yn llawer llai tebygol o ddefnyddio eu pleidlais mewn etholiadau a refferenda na phobl hŷn.

## Barn y Bobl:

1. Gydag ymgyrchoedd ar gyfer y refferendwm mewn/allan o'r UE yn dechrau'r wythnos hon, credaf ei bod yn bwysicach nag erioed y dylai'r myfyrwyr hynny gael eu gwneud yn ymwybodol o'r dewisiadau sydd ar gael iddynt. Yn arbennig ar gyfer refferendwm fel hwn a gaiff effaith hir dymor sylweddol ar fyfyrwyr ar ôl iddynt raddio.

## Y Datrysiad:

1. Buaswn yn awgrymu bod yr undeb yn anfon e-byst/taflenni allan yn atgoffa myfyrwyr i gofrestru a defnyddio eu pleidlais yn ystod ymgyrchoedd gwleidyddol. Rydw i hefyd am weld mwy o ddigwyddiadau gwleidyddol yn yr undeb yn ystod yr ymgyrchoedd hyn er mwy sicrhau bod pob myfyriwr yn ymwybodol o beth maen nhw'n pleidleisio drosto.

*Cynigydd:* Jonathan Plascott

# CYNRYCHIOLWYR UCM YN COFNODI SUT MAENT YN PLEIDLEISIO AR GYNIGION YN YSTOD Y GYNHADLEDD.

## Y Sefyllfa:

1. Yng Nghynhadledd UCM ac yng nghynadleddau'r gorffennol, pasiwyd sawl cynnig amheus gan gynnwys condemnio'r Wladwriaeth Islamaidd a cheisio rheoli YikYak yn ystod etholiadau undeb y myfyrwyr.

## Barn y Bobl:

1. Oherwydd mae angen i gynrychiolwyr presennol Aberystwyth i UCM a chynrychiolwyr y dyfodol gofnodi eu gweithredoedd i'w etholwyr yr un modd ag y mae ASau pan maent yn pleidleisio yn y senedd. Bydd hyn yn gwneud i ddemocratiaeth yr Undeb fod yn fwy agored i fyfyrwyr yn Aberystwyth.

## Y Datrysiad:

1. Dylai cynrychiolwyr UCM gofnodi sut maent yn pleidleisio ar bob un cynnig, yna dylai'r wybodaeth hon fod ar wefan Undeb y Myfyrwyr. Gellir gwneud hyn drwy gael gafael ar gopi o'r rhestr gynigion a naill ai teipio neu ysgrifennu ger y cynnig sut y bu iddynt bleidleisio.

*Cynigydd:* Ieuan Joy